# Taith i Gofio: Coffáu 80 mlynedd ers Rhyddhau s'Hertogenbosch

Myfyrdodau o ymweliad i anrhydeddu'r Adran 53 Gymreig Hydref 2024

Cefais i, ochr yn ochr â Darren Millar AS, wahoddiad i ddathliadau 80 mlynedd ers rhyddhau s'Hertogenbosch, i gynrychioli'r Senedd fel cyd-gadeiryddion y grŵp trawsbleidiol ar y lluoedd arfog. Fe wnaethom ymuno â Huw Irranca-Davies yn cynrychioli Llywodraeth Cymru, y Fonesig Nia Griffith yn cnrychioli Llywodraeth y DU a Llysgennad y DU i'r Iseldiroedd ochr yn ochr â chyn-filwyr, cynrychiolwyr o'r 160ain Brigâd, Byddin yr Iseldiroedd a miloedd o ddinasyddion y ddinas i gofio digwyddiadau 80 mlynedd yn ôl.

Cynhaliwyd penwythnos llawn o weithgareddau gan Lywodraeth yr Iseldiroedd a Chyngor y Ddinas a oedd yn cynnwys corau a phlant ysgol o Gymru a s'Hertogenbosch ochr yn ochr â'r arweinwyr milwrol a gwleidyddol.

Nid yw dinas S'Hertogenbosch erioed wedi anghofio aberth yr Adran Gymreig wrth iddynt frwydro eu ffordd i mewn i'r ddinas. Heddiw mae'r ddinas yn cofio'r cysylltiadau â Chymru drwy ei phensaernïaeth, cofebion a digwyddiadau rheolaidd i gofio ei rhyddhau.

Dechreuodd digwyddiadau coffa'r penwythnos gyda chyngerdd gyda pherfformwyr o Gymru a'r Iseldiroedd ar y nos Wener yn y theatr ym mhrif sgwâr y ddinas.

Ar y bore Sadwrn dechreuodd y prif ddigwyddiadau coffa gyda digwyddiad yn yr un theatr, yn gwrando ar areithiau gan y maer, pobl bwysig o Gymru oedd ar ymweliad, a disgynyddion y rhai a oedd wedi ymladd, cefais fy atgoffa o'r dewrder rhyfeddol a ddangoswyd yma ym mis Hydref 1944. Daeth y straeon a adroddwyd - o filwyr ymhell o gartref, yn symud ymlaen stryd wrth stryd yn erbyn gwrthwynebiad ffyrnig, ac am deuluoedd lleol yn dioddef braw ac amddifadedd meddiannaeth - â'r cyfan yn fyw.



Yna cafwyd y prif wasanaeth coffa yn eglwys gadeiriol y ddinas a oedd yn cynnwys cyfraniadau o Gymru a'r Iseldiroedd. Cafodd canwyllau eu cynnau gan blant s'Hertogenbosch a Chymru i gofio pob un o'r milwyr a fu farw wrth ryddhau'r ddinas. Roedd atsain emosiynol y cofio, o'r distawrwydd i'r emynau yn adnewyddu'r cysylltiadau cyfunol rhwng cenedlaethau a chenhedloedd.

Dilynwyd hyn gan orymdaith filwrol, eto yn cynnwys y 160ain Brigâd yn gorymdeithio ochr yn ochr â byddin yr Iseldiroedd a chynrychiolwyr awdurdodau lleol a chymunedau'r rhanbarth.



Dilynwyd yr orymdaith gan Weithred Goffa wrth y gofeb i Adran 53 yn y Ddinas. Yma, gosodais i a Darren Millar dorch ar ran y Senedd.  Mae'r gofeb wedi dod yn ganolbwynt ar gyfer cyd-gofio. Gwyliais wrth i gynrychiolwyr yr Iseldiroedd a Chymru osod blodau gyda'i gilydd, eu hymarweddiad yn dystiolaeth dawel i'r cwlwm parhaol a ffurfiwyd mewn gwrthdaro. Roedd y foment yn deimladwy iawn: yn atgoffa y caiff cost rhyddid ei fesur mewn buddugoliaeth filwrol, ac hefyd yng ngwytnwch a gobaith y rhai a oroesodd.

I gloi, digwyddiadau'r penwythnos, o faneri Cymru yn chwifio o fariau, bwytai yn ogystal â neuadd y ddinas ac adeiladau dinesig i'r arddangosfeydd addysgol a oedd yn adrodd hanes y rhyddhau ac yn cynnig cipolwg pellach, yn llunio portread o s'Hertogenbosch yn ystod ac ar ôl y rhyfel. Cefais fy nharo gan ymrwymiad y ddinas i gadw ei hanes, a sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn deall yr aberth a wnaed dros y rhyddid y maen nhw bellach yn ei fwynhau.

Roedd fy ymweliad â s'Hertogenbosch yn fwy na thaith i'r gorffennol; roedd yn atgoffâd grymus o bwysigrwydd parhaol cofio. Mae teyrnged y ddinas i'r rhai a'i rhyddhaodd yn anrhydeddu nid yn unig aberth yr Adran 53 Gymreig, ond hefyd wytnwch ei phobl ei hun, a'r gobaith parhaol am heddwch. Wrth i mi adael, roedd cofio'r seremonïau dwys hynny a chynhesrwydd dinas ddiolchgar yn aros - tystiolaeth bod etifeddiaeth rhyddhad yn parhau, gan lunio cenedlaethau'r dyfodol.